**<u>Sda ti hen heyrn</u>**

Mond rhyw wythnos sy’ers i f’annwyl ewyrth Tom
benderfynu’n sydyn fadel a’r hen fuchedd hon.
Y dydd o’r blaen mi es i draw i weld fy modryb Nan
medd hi ‘ Mi fynnodd fod ei gadwyn watsh yn dod i’th ran.’
Mi wisges hi, ar y wasgod hon
meddwl mod i’n ddandi gyda’r gadwyn ar fy mron.
Meddwl mod i’n grand a mynd yn dalog am y dre
a chriw o blantos yn fy nghwt yn gweiddi llond y lle.

Sda ti hen heyrn, sda ti hen heyrn, sda ti, sda ti hen heyrn.
Tithau’n swel dyna be ‘dy del
ti fel eilun o dy gorun i dy gwt.
Clamp o steil, het gwerth chweil,
a thei sidan werdd yn gwlwm.
Ond ni faswn yn rhoi dime am dy gadwyn a’th watsh.
Hen heyrn, hen heyrn.

Cofio rwyf pan nes i briodi a Selina Brown
roedd pawb yn chwerthin arna i a minnau’n teimlo’n glown.
Nes i ddechre ame pan nad oedd ‘na wyneb syth
os oeddwn wedi gwisgo’n nhrowsus gore un o chwith.
‘Roedd cadwyn Tom, ar fy mola’n siwr
yr haul yn gwenu arni ac mi deimlwn i’n rel gŵr.
Yr organ yn atseinio a’r holl glychau’n canu’n llon,
y côr yn canu’r anthem a’r hen gadwyn ar fy mron.